Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y dynion oedd yn gwrthod plygu

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Jonathan Hay

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Mary-Anne S.

Stori 33 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Dyma'r brenin Nebwchadnesar yn gwneud delw aur enfawr. Mae'n debyg fod y brenin wedi anghofio'r freuddwyd gafodd e gan Dduw yn dweud y byddai ei deyrnas aur yn dod i ben. Falla ei fod yn meddwl na fyddai Gair Duw yn dod yn wir os byddai'n adeiladu delw aur.

1

Dyma un o swyddogion y brenin yn darllen y gorchymyn i bawb: "... rhaid i chi blygu i lawr ac addoli'r ddelw aur ... bydd pwy bynnag sy'n gwrthod plygu ac addoli'r ddelw aur yn cael eu taflu ar unwaith i mewn i ffwrnais o dân."

2

Fe wnaeth pawb ufuddhau i'r brenin – pawb ond tri dyn. Iddewon o'r enw Shadrach, Meshach, ac Abednego, ffrindiau Daniel. Mae'n debyg fod Daniel yn absennol, neu fe fyddai e hefyd wedi gwrthod addoli delw o waith llaw pobl.

3

Roedd dynion doeth y brenin yn genfigennus o Daniel a'i ffrindiau achos bod y brenin yn eu hoffi. Felly dyma nhw'n dweud, "Mae'r dynion gafodd eu penodi yn rheolwyr talaith Babilon gynnoch chi - Shadrach, Meshach, ac Abednego, yn gwrthod ufuddhau i chi. Dydyn nhw ddim yn addoli eich duwiau chi, ac maen nhw'n gwrthod addoli'r ddelw aur dych chi wedi'i chodi."

4

Dyma Nebwchadnesar yn gwylltio'n lân. Dyma fe'n eu rhybuddio nhw, "Os byddwch chi'n gwrthod addoli, cewch chi'ch taflu ar unwaith i ffwrnais o dân. Pa dduw sy'n mynd i'ch achub chi o'm gafael i?"

5

Roedd y brenin yn gwneud camgymeriad mawr. Roedd e'n herio'r Duw byw. Roedd y tri Iddew yn gwybod bod addoli delw yn erbyn cyfraith Duw. Dyma nhw'n gwrthod plygu. Roedden nhw'n trystio Duw, a doedd ganddyn nhw ddim ofn y brenin.



6

Roedd gan y tri dyn ateb ar gyfer y brenin. Dyma nhw'n dweud, "Bydd y Duw dŷn ni'n ei addoli yn gallu'n hachub ni o'r ffwrnais dân. Ond hyd yn oed os ydy e ddim yn gwneud hynny, does dim gwahaniaeth. Does gynnon ni ddim bwriad addoli eich duwiau chi, na'r ddelw aur dych chi wedi'i chodi."



7

Roedd Nebwchadnesar yn lloerig! Rhoddodd orchymyn fod y ffwrnais i gael ei thanio saith gwaith poethach nag arfer. Ond roedd y dynion yn dal i wrthod plygu.



8

Cafodd Shadrach, Meshach, ac Abednego eu clymu'n dynn gan ddynion cryf y brenin,

a'u taflu i ganol y tân yn y ffwrnais.



9

Roedd y ffwrnais mor boeth fel bod y milwyr oedd yn eu taflu i'r tân yn cael eu llosgi.

10

Arhosodd y brenin mewn man diogel i weld beth oedd yn digwydd. Gwelodd tri dyn yn cael eu taflu i ganol y ffwrnais. Ond gwelodd fwy na hynny!



11

Edrychodd y brenin Nebwchadnesar mewn rhyfeddod! "Onid tri dyn wnaethon ni eu rhwymo a'u taflu i'r tân?" gofynnodd i'w ddynion. "Ie, yn sicr," medden nhw.



12

"Ond edrychwch!" gwaeddodd y brenin. "Dw i'n gweld pedwar o bobl yn cerdded yn rhydd yng nghanol y tân. A dŷn nhw ddim wedi cael unrhyw niwed! Ac mae'r pedwerydd yn edrych fel Mab Duw!"



13

Aeth Nebwchadnesar mor agos ag y gallai at ddrws y ffwrnais, a gweiddi, "Shadrach, Meshach, and Abednego, gweision y Duw Goruchaf. Dewch allan!" Cerddodd Shadrach, Meshach, ac Abednego allan o'r tân.

14

Dyma bawb yn casglu o gwmpas y tri Iddew. Doedd y tân ddim wedi'u llosgi nhw o gwbl, dim un blewyn. Doedd dim niwed i'w dillad. Doedd dim hyd yn oed arogl llosgi arnyn nhw!

15

Pan sylweddolodd y brenin beth oedd wedi digwydd, fe wnaeth rywbeth doeth iawn. Dechreuodd weddïo, a dywedodd, "Moliant i Dduw Shadrach, Meshach ac Abednego! Anfonodd angel i achub ei weision oedd yn trystio ynddo."

16

Y dynion oedd yn gwrthod plygu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Daniel 3

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!